Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Sir Ceredigion**
**Canolfan Rheidol**
**Rhodfa Padarn**
**Llanbadarn Fawr**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 3UE**
**Y Deyrnas Unedig**

**Tachwedd 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 11/02/2014**

## Cyd-destun

Mae Ceredigion yng ngorllewin Cymru.  Cyfanswm y boblogaeth yw 76,046.

Yng Ngheredigion, mae 55.5% o bobl dros dair oed yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 25.8%.

Y gyfradd cyflogaeth yng Ngheredigion oedd 60.3% o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 67.3% (blwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2012).  Roedd 6.9% o blant yn byw mewn aelwydydd heb waith.

O ran y boblogaeth sy'n gweithio yng Ngheredigion, nid oes gan 7.9% o'r bobl unrhyw gymwysterau, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 10.6%.

Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yw 12.1%, sy'n is nag 19.5% yn genedlaethol.  Y lefel hon o gymhwyster yw'r isaf ond un yng Nghymru (CYBLD 2013).  Nid yw unrhyw un o'r 47 ardal yng Ngheredigion yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALlC 2011).

Ar 31 Mawrth 2013, roedd 75 o blant yn cael gofal gan yr awdurdod yng Ngheredigion.  Roedd 50 ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn 2012-2013.

Mae dinasyddion ethnig lleiafrifol yn cyfrif am 2.4% o'r boblogaeth, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 4.2% (blwyddyn yn gorffen 31 Rhagfyr 2012).

### Cyd-destun ariannol

Mae'r cyngor wedi gosod ei gyllideb refeniw cyffredinol net (ac eithrio grantiau penodol) ar gyfer yr holl wasanaethau yn 2013-2014 ar gyfanswm o £132.8 miliwn, sy'n cyd-fynd â lefel Asesiad Gwariant Safonol (AGS) Llywodraeth Cymru.  O fewn y gyllideb gyfan, mae'r cyngor wedi gosod ei gyllideb addysg net ar lefel ychydig bach uwchlaw elfen addysg dybiannol yr AGS.  Mae hyn yn rhoi cyllideb o £54.6 miliwn, sy'n cynrychioli £5,815 fesul disgybl o gymharu â chyfartaledd Cymru gyfan, sef £4,992.  Mae'r lefel gymharol uchel o gyllid o fewn elfen addysg dybiannol yr AGS yn adlewyrchu'r ffaith fod Ceredigion yn ardal brin ei phoblogaeth.

Cyfanswm cost gros darpariaeth ysgol gynradd (gan gynnwys grantiau, a ph'un a yw hyn yn cael ei ddirprwyo i ysgolion ai peidio) yw £5,146 fesul disgybl, sydd ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan, sef £4,550 a'r uchaf ond un yng Nghymru.  Y ffigur cyfatebol ar gyfer ysgolion uwchradd yw'r uchaf yng Nghymru, sef £5,823 fesul disgybl o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef £5,120.  Mae costau cludiant o'r cartref i'r ysgol yn ffurfio cyfran uchel o'r gyllideb addysg oherwydd natur wledig y sir.  O ganlyniad, mae cyfraddau dirprwyo, fel y cyfrifwyd gan Lywodraeth Cymru, yn gymharol isel, sef 79.2%.

Yn unol â'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru, bydd cyllid Llywodraeth Cymru yn gostwng yn sylweddol yn y tymor byr i'r tymor canolig.  Yng Ngheredigion, bydd y cyllid refeniw yn gostwng 4.6% neu £5 miliwn o ran arian parod yn 2014-2015.

## Crynodeb

**Barn gyffredinol: Rhagorol**

**Bernir bod perfformiad presennol yn rhagorol. Mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys:**

- yn 2013, mae safonau yn ysgolion Ceredigion yn dda ac maent yn y pump uchaf ar gyfer Cymru ym mhob cyfnod allweddol ar gyfer y prif ddangosyddion;
- y cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yw'r gorau yng Nghymru;
- roedd pob disgybl a adawodd yr ysgol yn y tair blynedd diwethaf yn meddu ar o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig;
- prosesau cadarn ac effeithlon iawn i gefnogi, herio ac ymyrryd yn ei hysgolion;
- defnydd rhagorol o ddata ar draws yr awdurdod, a'r cyfraniad a wna at fonitro, herio ac ymyrraeth effeithiol gan yr awdurdod mewn ysgolion;
- ymglymiad effeithiol yr holl athrawon cynradd mewn gweithgareddau safoni blynyddol a safoni gwaith disgyblion ar draws yr awdurdod;
- y ffordd hynod lwyddiannus y mae'r awdurdod yn bodloni anghenion dysgu ychwanegol disgyblion;
- y ffordd effeithiol iawn y mae'r awdurdod yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles; a'r
- dull cysylltiedig rhwng gwasanaethau wrth gynorthwyo a herio ysgolion i wella ymddygiad a phresenoldeb.

**Gallu i wella: Rhagorol**

**Bernir bod rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd:**

- mae arweinyddiaeth strategol y cyngor yn gryf yn wleidyddol ac yn gorfforaethol;
- mae uwch swyddogion yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o flaenoriaethau corfforaethol, a cheir cydweithio effeithiol iawn rhwng gwasanaethau o ganlyniad;
- mae cynlluniau strategol y Cyngor ar gyfer addysg yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cynllun Integredig Sengl, y Strategaeth Gorfforaethol a'r Cynllun Gwella yn agos, a cheir llinellau atebolrwydd cryf a chyson i gynlluniau gweithredol effeithiol ar bob lefel;
- mae hunanarfarnu wedi'i ymgorffori'n gryf yn niwylliant y Gwasanaeth Dysgu, ac yn gynyddol yn y cyngor yn gyffredinol;
- mae'r fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn y Gwasanaeth Dysgu yn arwain y sector; ac
- mae effaith y gwaith partneriaeth strategol ar wella deilliannau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr yn rhagorol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau yr eir i'r afael yn effeithiol â'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad hunanarfarnu'r awdurdod, ynghyd â'r rhai a nodir yn yr adroddiad hwn.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Estyn yn gwahodd yr awdurdod lleol i baratoi astudiaethau achos ysgrifenedig yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn 2013, bu gwelliant mewn perfformiad yn ysgolion Ceredigion yn y Cyfnod Sylfaen a pharhaodd hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Mae ymhlith y pum awdurdod gorau ar gyfer Cymru ym mhob un o'r tri chyfnod allweddol. Digwyddodd gwelliant mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn gyflymach na Chymru yn 2013 ac mae'r prif ddangosyddion i gyd yn y pedwar dangosydd uchaf ar gyfer Cymru. Mae perfformiad ar y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg ymhlith y gorau yng Nghymru. Mae perfformiad ar y lefelau a'r graddau uwch yn gyffredinol dda ym mhob cyfnod allweddol.

Pan gaiff perfformiad yn ysgolion Ceredigion ei gymharu ag ysgolion tebyg, yn ôl meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad uwchlaw'r cyfartaledd mewn ysgolion cynradd. Mae'n dda yng nghyfnod allweddol 3, lle mae dros 70% o ysgolion uwchlaw'r cyfartaledd. Yn 2013, bu gwelliant mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y dangosydd pwnc craidd, trothwy lefel 2 a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio erbyn hyn. Ar y ddau ddangosydd olaf, mae dros 70% o ysgolion uwchlaw'r cyfartaledd. Fodd bynnag, mae gormod o ysgolion islaw'r cyfartaledd ar y trothwyau ar gyfer lefel 1 a lefel 2, gan gynnwys mathemateg a naill ai Cymraeg neu Saesneg fel mamiaith. Mae gan yr awdurdod bolisi i fod yn gwbl gynhwysol, heb unrhyw ysgolion arbennig, fel bod yr holl ddisgyblion mewn ysgolion prif ffrwd. O ganlyniad, mae pob disgybl yn cyfrif tuag at ystadegau perfformiad.

Yn 2012, llwyddodd perfformiad yn ysgolion Ceredigion i fodloni meincnod disgwyliedig cyfnod allweddol 3 Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim, a bron iddo fodloni un o feincnodau cyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, yn 2013, bodlonodd yr awdurdod holl feincnodau disgwyliedig cyfnod allweddol 3 a 4 Llywodraeth Cymru.

Yn 2013, yn unol â'r ddwy flynedd flaenorol, ni adawodd unrhyw ddisgybl o ysgolion Ceredigion addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig. Dyma oedd y gorau yng Nghymru.

Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched wedi gwella ym mhob cyfnod allweddol yn y blynyddoedd diwethaf, ac yn 2013, mae'n llai nag ydyw ledled Cymru ar bron pob dangosydd. Ar drothwy lefel 1 yng nghyfnod allweddol 4 yn unig y mae'r gwahaniaeth ychydig yn fwy na chyfartaledd Cymru. Yn 2012, roedd y bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn llai na'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 ac ar gyfer tri o'r pum prif ddangosydd yn CA4. Nid yw'r data ar gyfer 2013 ar gael eto.

Mae grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni yn unol â'u lefelau disgwyliedig yn

gyffredinol.  Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ar ôl rhaglenni ymyrraeth.  Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n cael cymorth i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd yn cynnal y cynnydd a wnânt ac yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y cyfnod allweddol.  Ychydig iawn o ddisgyblion yn unig sy'n gadael yr ysgol gynradd islaw lefelau llythrennedd swyddogaethol.

Mae perfformiad mewn Cymraeg mamiaith ac ail iaith yn gyffredinol dda ym mhob cyfnod allweddol ac ar bob lefel heblaw ar lefel 4 ac yng nghyfnod allweddol 2.

Mae pobl ifanc yn cyflawni'n dda mewn ystod eang o gymwysterau nad ydynt yn rhai ffurfiol.

**Lles:  Rhagorol**

Y cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yw'r gorau yng Nghymru.  O gymharu â chyfraddau presenoldeb ysgolion tebyg ar sail canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae bron i hanner yr ysgolion cynradd yn y 25% uchaf.  Mae'r cyfraddau presenoldeb uchel, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, yn rhagorol.  Mae presenoldeb plant sy'n cael gofal yn dda iawn.

Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum diwrnod neu lai yn isel, sef 31.8 i bob 1,000 o ddisgyblion, sy'n golygu bod rhywfaint o gynnydd ers y flwyddyn flaenorol, a dyma yw'r pumed gorau yng Nghymru.  Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, ni fu unrhyw waharddiadau parhaol na gwaharddiadau cyfnod penodol sy'n para chwe diwrnod neu fwy yn yr awdurdod.  Mae hyn yn galluogi dysgwyr i barhau i fod â chysylltiad â'r ysgol a goresgyn eu problemau ymddygiad yn fwy effeithiol.  At ei gilydd, y cyfraddau gwaharddiadau yw'r isaf yng Nghymru.

Mae cyfran uchel iawn o ddisgyblion yn aros mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16.  Mae canran y disgyblion Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NAHC) wedi bod yn gyson isel dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn 2012 dyma oedd yr isaf ond un yng Nghymru.

Mae disgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at amrywiaeth eang o faterion yn gysylltiedig ag iechyd.  Mae cyfranogiad dysgwyr mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn dda iawn ac yn parhau i gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn.  Er enghraifft, mynychodd 50% o ddisgyblion cynradd a 53% o ddisgyblion uwchradd ganolfan hamdden neu chwaraeon o leiaf unwaith yr wythnos yn 2012-2013, o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 28% o ddisgyblion cynradd a 31% o ddisgyblion uwchradd.

At ei gilydd, mae dysgwyr yn cyfrannu eu safbwyntiau yn effeithiol trwy ystod o fecanweithiau ymgynghori defnyddiol a ddefnyddir gan yr awdurdod lleol.  Mae aelodau o'r Fforwm Ieuenctid yn dysgu medrau buddiol mewn cyfathrebu ac yn cael profiad gwerthfawr, ond mae eu dylanwad ar benderfyniadau'r awdurdod lleol am bolisi a darpariaeth i blant a phobl ifanc yn gyfyngedig.

Mae cyfranogiad mewn gweithgareddau gwasanaethau ieuenctid wedi gwella'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.  Mae nifer y cyfranogwyr yn y gwasanaethau ieuenctid sy'n ennill achrediadau a gydnabyddir yn genedlaethol wedi gwella'n dda

hefyd. Mae ymglymiad pobl ifanc mewn gwasanaethau ieuenctid y sector gwirfoddol, fel y Ffermwyr Ifanc, yn dda iawn.

Mae nifer yr achosion o fwlio ac ymddygiad hiliol yn isel. Mewn achosion o'r fath, mae'r awdurdod lleol wedi cefnogi ysgolion yn effeithiol i fynd i'r afael â'r materion.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion: Rhagorol**

Mae'r awdurdod wedi datblygu ystod sylweddol o brosesau cadarn ac effeithlon iawn i gefnogi, herio ac ymyrryd yn ei ysgolion. Mae'r rhain wedi arwain at safonau gwell trwy gydol y cyfnodau allweddol ac arweinyddiaeth a darpariaeth well mewn ysgolion.

Mae gan yr awdurdod gronfa ddata gynhwysfawr iawn, sy'n cynnwys ystod eang o wybodaeth am bob disgybl. Mae swyddogion yn defnyddio hyn yn dda i fonitro perfformiad yn effeithiol ar draws yr awdurdod, maent yn nodi tanberfformiad yn gyflym ac yn darparu ymyrraeth gynnar yn llwyddiannus ar gyfer gwahanol grwpiau o ddysgwyr. Mae'r defnydd rhagorol a wneir o'r data hwn ar draws yr awdurdod, a'r cyfraniad a wna at fonitro, herio ac ymyrraeth effeithiol yr awdurdod yn arwain y sector. Mae'r awdurdod wedi rhannu'r system gydag awdurdodau eraill o fewn y consortiwm rhanbarthol a thu hwnt.

Ceredigion yw'r prif awdurdod o ran datblygu'r fframwaith rhanbarthol i gategoreiddio ysgolion yn ôl risg a thargedu ymyrraeth. Mae swyddogion o ystod o dimau gwahanol yn defnyddio'r fframwaith hwn yn effeithiol iawn i arfarnu pob ysgol a chasglu eu harfarniadau mewn un barn gyffredinol. Mae'r categoreiddio yn rhoi pwys priodol i safonau ac mae arweinwyr ac ysgolion yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'u hawl i gael cymorth.

Mae'r rhaglen graidd flynyddol o ymweliadau gan swyddogion yn gadarn, yn drylwyr ac yn canolbwyntio'n graff ar yr ysgolion hynny sydd angen eu gwella fwyaf. Mae hyn yn cynnwys adolygiadau manwl o lythrennedd a rhifedd lle mae swyddogion, ymarferwyr arweiniol ac arweinwyr ysgol yn arfarnu safonau arweinyddiaeth a rheolaeth ym mhob ysgol ar sail dadansoddiad manwl o berfformiad ac arsylwi addysgu a dysgu yn uniongyrchol. Mae'r cydweithio cryf hwn rhwng arweinwyr ysgol a swyddogion yr awdurdod wedi meithrin gallu ysgolion yn llwyddiannus i wella'u darpariaeth. Mae swyddogion o wasanaethau gwella ysgolion, anghenion dysgu ychwanegol, cynhwysiant a gwasanaethau cymorth eraill yn y Gwasanaeth Dysgu yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn. Ceir prosesau da i sicrhau ansawdd adroddiadau swyddogion.

Mae swyddogion yn adnabod ysgolion yn dda iawn ac maent yn herio tanberfformiad yn effeithiol. Maent yn cymryd camau priodol i wella arweinyddiaeth pan fydd angen. Mae penaethiaid yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i ysgogi gwelliant ac mae'r awdurdod yn eu cynorthwyo i wella'u gallu i wneud hyn. Mae swyddogion yn defnyddio rheoli perfformiad yn effeithiol, ac mae'r awdurdod yn gwneud penderfyniadau anodd er mwyn mynd i'r afael â diffygion mewn arweinyddiaeth os bydd angen. Yr awdurdod yw'r unig un yng Nghymru nad yw unrhyw un o'i ysgolion wedi bod mewn categori pryder yn ystod y cylch arolygu presennol.

Mae gan yr awdurdod strategaethau llythrennedd a rhifedd cryf a chydlynus iawn. Mae swyddogion yn defnyddio ystod eang o ddata a gweithgareddau monitro uniongyrchol i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn dda. Ceir trefniadau effeithlon i ledaenu arfer orau o fewn yr awdurdod a thu hwnt ac ar gyfer diwrnodau cau ysgolion ar y cyd i alluogi pob aelod o staff i gydweithio'n effeithiol. Mae hyn wedi gwella gallu arweinwyr ysgol i ysgogi gwelliant yn eu hysgolion eu hunain.

Mae'r awdurdod wedi gwella safoni asesiadau athrawon yn llwyddiannus yn y pynciau craidd. Mae swyddogion ac arweinwyr ysgol yn defnyddio data manwl ar berfformiad disgyblion unigol i herio asesiadau athrawon yn effeithiol lle bo'n briodol. Mae'r holl athrawon cynradd a'r staff pynciau craidd uwchradd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau safoni blynyddol. Mae'r broses sefydledig wedi gwella cywirdeb asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a gall swyddogion nodi a mynd i'r afael â thanberfformiad yn well. Mae hon yn arfer sy'n arwain y sector. Mae'r awdurdod wedi rhannu'r dull hwn gydag awdurdod cyfagos, ac mae asesiadau athrawon wedi gwella yn ysgolion yr awdurdod hwnnw o ganlyniad.

Mae'r awdurdod yn rhoi cymorth da i arweinwyr mewn ysgolion, gan gynnwys mentora cymheiriaid ar gyfer penaethiaid newydd a hyfforddiant ar gyfer arweinwyr canol. Mae swyddogion yn mynychu cyfarfodydd cyrff llywodraethol i gyflwyno adroddiadau perfformiad blynyddol a gwneud yn siŵr bod llywodraethwyr yn deall yn dda y blaenoriaethau gyfer gwelliant yn yr ysgol.

**Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol: Rhagorol**

Mae'r awdurdod yn hynod lwyddiannus wrth fodloni anghenion dysgu ychwanegol disgyblion. Y rheswm am hyn yw'r gweithio cydlynol rhagorol ar draws gwasanaethau anghenion dysgu ychwanegol, cynhwysiant, gwella ysgolion a gwasanaethau cymorth eraill. Mae hyn yn arwain y sector.

Mae strategaeth gwasanaeth tra ystyriol yn amlinellu gweledigaeth, polisi ac arfer yr awdurdod, fel bod ysgolion, rhieni a gofalwyr yn deall beth i'w ddisgwyl. Gellir manteisio ar unrhyw gymorth ychwanegol, a rhoi'r gorau i'w gael, trwy feini prawf clir, a gytunwyd gydag ysgolion. O ganlyniad, ac yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, mae'r awdurdod wedi lleihau nifer y datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig yn sylweddol.

Mae'r awdurdod yn nodi anghenion disgyblion yn gyflym ac mae'n darparu cymorth priodol trwy weithio'n effeithiol iawn gyda phartneriaid amlasiantaethol pan fydd angen. Mae hyn yn arbennig o effeithiol pan fydd disgyblion yn cael cyfnodau o anhawster fel trosglwyddo i ysgolion, a rhwng ysgolion.

Caiff cynnydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ei gofnodi a'i olrhain yn rhagorol. Mae system ddata soffistigedig yn galluogi gwasanaethau i gynllunio darpariaeth yn strategol ac arfarnu ei heffaith yn effeithiol iawn. Mae swyddogion yn gwneud defnydd rhagorol o'r data trylwyr hwn i dargedu adnoddau'r awdurdod a herio ysgolion yn effeithiol. O ganlyniad, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yng Ngheredigion yn gwneud cynnydd da iawn yn gyffredinol, yn enwedig o ran medrau llythrennedd a rhifedd.

Cryfder penodol yn y gwasanaeth yw'r hyfforddiant a'r ymyrraeth effeithiol iawn a ddarperir gan dîm craidd o staff sy'n gweithio ar sail allymestyn gydag ysgolion. Mae'r tîm hwn wedi datblygu gallu a hyder ysgolion i fodloni ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol. Canlyniad uniongyrchol y gwaith hwn yw bod disgyblion yn gwneud cynnydd da ac mae nifer y disgyblion sy'n cael cymorth ychwanegol wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad.

Mae'r awdurdod yn rhoi cyngor a chymorth o ansawdd da i rieni a gofalwyr. Mae'r awdurdod yn darparu sesiynau galw i mewn bob mis ar gyfer rhieni lle mae cyngor ar gael gan staff profiadol. Mae'r sesiynau hyn yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i rieni ddysgu mwy am gynnydd eu plentyn a gofyn am gyngor ar sut i helpu eu plentyn. Mae'r cyfathrebu â theuluoedd yn dda iawn bron bob amser. Yn sgil cymorth gweithredol gan SNAP Cymru (Elusen Genedlaethol sy'n ceisio datblygu addysg pobl yng Nghymru a chefnogi eu cynhwysiant), mae'r awdurdod fel arfer yn datrys materion yn gyflym i fodloni rhieni.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion annibynnol i ffwrdd o ardal eu cartref. Pan ystyrir mai dyma yw'r dewis gorau, mae panel amlasiantaethol yn ystyried anghenion dysgu a lles disgyblion ac mae'n sensitif i ddewisiadau rhieni wrth benderfynu ar leoliad.

**Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles: Rhagorol**

Mae'r awdurdod lleol yn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lles yn effeithiol iawn. Mae ymddygiad a phresenoldeb yn flaenoriaethau strategol, ac mae'r rhain yn ganolog i wella ysgolion. Mae'r dull cysylltiedig rhwng gwasanaethau wrth gefnogi a herio ysgolion i wella ymddygiad a phresenoldeb yn arwain y sector.

Mae'r awdurdod wedi datblygu ystod gynhwysfawr o ddarpariaeth hynod effeithiol i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed a'r rhai sydd ag anawsterau ymddygiadol. Mae'r uned cyfeirio disgyblion a chanolfannau Hafan ac Encil yn galluogi disgyblion i barhau mewn addysg yn llwyddiannus. Mae prosesau cyfeirio effeithiol, defnydd eithriadol o dda o ddata a chydweithio agos iawn rhwng yr awdurdod a'r ysgolion yn golygu bod disgyblion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt ar yr adeg gywir. Mae hyn yn eu galluogi i ddysgu rheoli eu hymddygiad a magu hyder, er mwyn iddynt allu dychwelyd i addysg prif ffrwd. Mae'r Uned Cyfeirio Disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 a 3 yn gweithredu'n effeithiol iawn fel darpariaeth tymor byr.

Mae'r awdurdod yn darparu cymorth, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel ar gyfer athrawon a staff nad ydynt yn addysgu mewn perthynas â rheoli ymddygiad yn effeithiol. O ganlyniad, mae ysgolion yn datblygu gwybodaeth ac arbenigedd, sy'n eu galluogi i reoli anawsterau ymddygiadol disgyblion yn dda. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n mynychu lleoliadau y tu allan i'r sir.

Mae'r awdurdod yn rhoi arweiniad clir iawn i ysgolion mewn perthynas â hyrwyddo presenoldeb. O ganlyniad, mae ysgolion yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Mae staff yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn ac maent yn defnyddio data yn effeithiol iawn i ddarparu cymorth a her dargedig i ysgolion. Pan fydd pryderon yn codi, mae'r awdurdod yn monitro ysgolion yn agos hyd nes y gwelir

gwelliant.  O ganlyniad, presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yw'r uchaf yng Nghymru.

Mae'r awdurdod yn monitro data bwlio yn effeithiol.  Mae'n ymateb i achosion neu bryderon yn dda.

Mae dull partneriaeth cryf at ddatblygu'r holl strategaethau sy'n effeithio ar gynhwysiant cymdeithasol a lles pobl ifanc.  Mae mentrau fel y Tîm o Amgylch y Teulu yn sicrhau bod pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael cymorth targedig a chydlynus.

Mae'r awdurdod yn defnyddio data yn effeithiol iawn i nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn y categori pobl Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NACH).  Mae ymyrraeth dargedig gan y Gwasanaeth Ieuenctid a'r gwasanaethau cymorth ieuenctid yn effeithiol iawn wrth helpu disgyblion i aros mewn addysg a chyflawni deilliannau cadarnhaol.

Mae trefniadau'r awdurdod ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.  Mae ganddo systemau eithriadol o gadarn ar gyfer gweithdrefnau monitro diogelu mewn ysgolion a lleoliadau eraill.

**Mynediad a lleoedd ysgol:  Da**

Mae gan yr awdurdod lleol strategaeth glir ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n gydnaws â natur wledig y sir.

Mae'r awdurdod yn adolygu ei ysgolion cynradd yn ofalus, yn unol â'i bolisi ac mae'n teilwra atebion ar gyfer ysgolion cynaliadwy sy'n rhoi ystyriaeth dda i faterion lleol penodol.  Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer yr ysgolion o 75, adeg yr arolygiad diwethaf yng Ngorffennaf 2009, i 58 ar hyn o bryd.  Yn ychwanegol, mae'r awdurdod wedi datblygu ystod o ffederasiynau, gan ddefnyddio gwahanol fodelau sy'n addas ar gyfer pob achos.

Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i gadw darpariaeth uwchradd yn y chwe phrif dref marchnad cyhyd ag y mae hyn yn hyfyw.  Mae'r awdurdod wedi dechrau mynd i'r afael â'r ysgolion uwchradd lle mae hyfywedd yn wynebu'r perygl mwyaf.  Mae'r awdurdod eisoes wedi datblygu ei ysgol 'pob oed' gyntaf ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 ac 19 oed yn Llanbedr Pont Steffan, ac mae'n defnyddio'r dull arloesol hwn fel model i'w gynlluniau ar gyfer sefydlu ysgol 3 i 19 oed yn Llandysul ac ysgol 3 i 16 oed yn Nhregaron.

Mae'r awdurdod wedi defnyddio'r broses ad-drefnu yn effeithiol i helpu codi safonau disgyblion trwy wella ansawdd y ddarpariaeth ac ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth.

Mae gan yr awdurdod gynllun rheoli asedau effeithiol yn seiliedig ar asesiad cadarn o gyflwr ac addasrwydd yr adeiladau.  Mae'n lleihau ei ôl-groniad o ran gwaith cynnal a chadw, yn bennaf trwy gau ysgolion a chael gwared ar ystafelloedd dosbarth symudol sydd mewn cyflwr gwael.

Mae'r awdurdod yn rheoli derbyniadau ysgol yn dda iawn ac mae'n blaenoriaethu lleoedd ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed.

Mae darpariaeth dda ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant trwy ysgolion a lleoliadau nas cynhelir. Mae'r awdurdod yn sicrhau ansawdd lleoliadau yn effeithiol ac mae'n eu categoreiddio gan ddefnyddio'r un dull a ddefnyddir gydag ysgolion. Mae'r awdurdod yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â lleoliadau sy'n achosi pryder. Ar y cyd â phartneriaid, mae'r awdurdod yn darparu ystod gynhwysfawr o gymorth a hyfforddiant rhagorol sydd wedi gwella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei rannu gyda sawl awdurdod lleol arall.

Mae'r awdurdod yn arfarnu'r ddarpariaeth ar gyfer chwarae ledled y sir yn dda, ac mae'n manteisio ar gyfleoedd i wella darpariaeth wrth ad-drefnu ysgolion. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn rhoi cyngor buddiol i rieni.

Mae'r awdurdod yn cydweithio'n agos ag ystod o bartneriaid i ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid priodol sy'n mynd i'r afael yn gyffredinol â'r blaenoriaethau a amlygwyd mewn asesiadau anghenion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol yn 2012, cytunodd y Cyngor ar strwythur rheoli newydd yn seiliedig ar bedwar cyfarwyddwr strategol yn cymryd cyfrifoldeb strategol am grwpiau gwasanaeth. O ganlyniad i'r newid trawsffurfiannol hwn, mae gan uwch swyddogion ddealltwriaeth well o lawer o flaenoriaethau corfforaethol ac mae'n sicrhau cydweithio hynod effeithiol rhwng gwasanaethau. Mae penaethiaid gwasanaeth a rheolwyr canol sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am gyflwyno gweithredol yn cefnogi cyfarwyddwyr strategol yn effeithiol iawn. Mae'r aelod Cabinet a'r Cyfarwyddwr Strategol sydd â chyfrifoldeb am berfformiad a gwelliant yn gweithio'n dda iawn i ysgogi cyflymder y newid. Mae'r Cyngor yn lledaenu'r arbenigedd a'r arfer dda yn y gwasanaeth addysg yn llwyddiannus iawn ar draws ei wasanaethau eraill.

Mae uwch aelodau etholedig yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o gryfderau'r gwasanaeth addysg a'r meysydd i'w datblygu. Mae arweinyddiaeth gan aelodau etholedig ac uwch swyddogion yn hynod effeithiol wrth ddylanwadu ar ymddygiad ac agweddau o fewn y gwasanaeth, mewn ysgolion, o fewn y Cyngor a gyda phartneriaid. Mae'r arweinyddiaeth effeithiol wedi cyfrannu'n sylweddol at welliannau mewn deilliannau disgyblion dros y pedair blynedd diwethaf mewn ystod eang o ddangosyddion. Mae cynlluniau strategol y Cyngor ar gyfer addysg yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cynllun Integredig Sengl, y Strategaeth Gorfforaethol a'r Cynllun Gwella yn agos, a cheir llinellau atebolrwydd cryf a chyson i gynlluniau busnes effeithiol ar bob lefel. Mae'r synergedd hwn rhwng cynlluniau yn sicrhau bod gwella ysgolion yn integreiddio'n effeithiol iawn gydag ystod o wasanaethau cymorth eraill fel cynhwysiant, anghenion dysgu ychwanegol, adnoddau dynol a chyllid ac mae'n galluogi arweinwyr a rheolwyr ysgol i wneud penderfyniadau gwybodus i wella

deilliannau. Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yr agwedd hon ar waith yr awdurdod yn arwain y sector.

Mae uwch swyddogion yn y Gwasanaeth Dysgu wedi rhoi blaenoriaeth i ddatblygu cronfa ddata arloesol a phwerus o ddata perfformiad cynhwysfawr ar lefel disgyblion. Mae’r gwasanaeth yn defnyddio hyn yn effeithiol iawn i arfarnu ansawdd ac effaith gwasanaethau, nodi tanberfformio a chynllunio ar gyfer datblygu.

Mae’r cysylltiadau clir rhwng cynlluniau strategol a chynlluniau gwasanaeth yn galluogi’r Cyngor i gyfleu ei weledigaeth yn glir ac yn effeithiol wrth brif randdeiliaid fel disgyblion, athrawon, staff a phartneriaid. Mae’r gwasanaeth addysg yn gweithio’n dda iawn i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol llythrennedd a rhifedd ac mae wedi datblygu strategaethau hynod effeithiol i wella presenoldeb a rheoli ymddygiad. Mae ysgolion, partneriaid, aelodau etholedig a swyddogion yn ymwybodol o gyflawni targedau dyheadol priodol i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc, ac maent wedi ymrwymo i hyn. Mae gan y Cyngor hanes diweddar da o wneud penderfyniadau anodd sy’n cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles dysgwyr.

Mae uwch swyddogion wedi rhannu eu harfer dda trwy gyfrannu’n sylweddol at ddatblygiad strategol effeithiol cynllun adfer ôl-arolygiad Powys. Y Cyfarwyddwr Strategol yw’r cyfarwyddwr arweiniol ar gyfer y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol ac fe gaiff yr awdurdod ddylanwad cadarnhaol ar gyfeiriad strategol y rhanbarth.

Mae’r weinyddiaeth newydd wedi ailffurfweddu trefniadau’r Cyngor ar gyfer craffu ar wasanaethau addysg. Mae Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Cymunedau Dysgu yn cynnwys pedair ffrwd waith berthnasol, sy’n gwella ansawdd ac atebolrwydd ei waith. Trwy’r ffrydiau gwaith hyn, mae’n ystyried ystod addas o wybodaeth i herio’r weithrediaeth, swyddogion ac ysgolion yn briodol a llywio gwelliant parhaus gwasanaethau.

### Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae hunanarfarnu wedi’i ymgorffori’n gryf yn niwylliant y Gwasanaeth Dysgu. Mae ffocws cryf ar atebolrwydd ac adolygu parhaus a phwyslais cyson ar gyflawni cynnydd yn unol â blaenoriaethau. Mae’r ffocws hwn ar arfarnu ac adolygu yn un o brif gryfderau’r Gwasanaeth Dysgu ac mae wedi arwain at welliant sylweddol.

Tarddodd y diwylliant hwn o arfer lwyddiannus o fewn gwasanaethau addysg. Yn sgil y ffocws cynyddol ar wella gwasanaethau ers ailstrwythuro’r rheolaeth yn ddiweddar, mae’r awdurdod wedi ymestyn y broses i ddatblygu cynllunio ac arfarnu busnes cyson ar draws yr holl wasanaethau. Y dirprwy arweinydd yw deiliad y portffolio ar gyfer perfformiad a gwelliant ac mae’n gweithio’n dda gydag uwch swyddogion i ysgogi gwelliant. Mae’r holl benaethiaid gwasanaeth yn adrodd yn chwarterol i’r panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol. Rhaid i uwch swyddogion gyfiawnhau tanberfformio a nodi meysydd risg posibl gan gynnwys gorwario. O ganlyniad, mae’r prif weithredwr, uwch swyddogion ac aelodau etholedig allweddol yn datblygu gwybodaeth dda am gryfderau a meysydd i’w gwella ar draws yr awdurdod cyfan. Mae gwasanaethau’n dysgu o arfer dda ac mae llinellau atebolrwydd wedi’u diffinio’n glir. Mae aelodau’n cymharu ac yn herio gwasanaethau

yn fwy effeithiol. Caiff y broses ei hadolygu a'i diwygio'n barhaus ac mae ansawdd adolygiadau gwasanaeth yn gwella'n raddol.

Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn gryfder pwysig yn y Gwasanaeth Dysgu. Mae cynlluniau manwl ar sawl lefel o gynllun busnes y gwasanaeth trwy gynlluniau tîm a grŵp yn ymdrin â phob agwedd ar waith y gwasanaeth. Mae'r holl gynlluniau wedi enwebu swyddogion cyfrifol ac mae pob un ohonynt yn bwydo'n glir i gynllun busnes y gwasanaeth. Ceir trefniadau trylwyr ar gyfer hunanarfarnu sy'n seiliedig ar y fframwaith hwn. Mae swyddogion yn adolygu eu cynlluniau yn chwarterol ac yn arfarnu cynnydd ac effaith. Mae'r adolygiadau hyn yn llywio'r arfarniad o'r cynllun busnes sy'n bwydo i'r arfarniad gwasanaeth chwarterol yn systematig fel bod trywydd clir o arfarniad timau i mewn i'r adolygiad corfforaethol. Wedyn, caiff blaenoriaethau newydd o'r adolygiad gwasanaeth eu hymgorffori'n gyflym mewn cynlluniau tîm.

Mae cysondeb a thrylwyredd y broses hon yn dod â ffocws i waith timau ac mae wedi cynyddu gallu rheolwyr canol yn sylweddol i ddatblygu gwaith arloesol o fewn fframwaith tynn. Mae swyddogion yn deall yn dda beth yw eu cyfrifoldeb am welliant parhaus a'u hatebolrwydd am gynnydd yn eu meysydd. Mae rhannu cynlluniau ac arfarniadau mewn modd eglur yn dod â chydlyniad i dimau ac mae'n gyrru'r cydweithio cryf sydd wedi arwain at ddarpariaeth gwasanaeth ragorol a gwella safonau ac arweinyddiaeth mewn ysgolion. Mae'r fframwaith hwn wedi cael ei rannu'n llwyddiannus ag awdurdod cyfagos lle mae wedi gwella cynllunio ac arfarnu gwell yn sylweddol hefyd. Mae fframwaith atebolrwydd yr awdurdod a'r defnydd a wneir ohono i ysgogi gwelliant yn arfer sy'n arwain y sector.

Ymgynghorir yn dda â phlant a phobl ifanc am y gwasanaethau a gânt. Defnyddir arolwg canfyddiadau gydag ysgolion yn effeithiol i lywio cynllunio busnes ac mae swyddogion yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion yn brydlon. Mae adroddiadau a gomisiynwyd oddi wrth ymgynghorwyr annibynnol yn arfarnu ansawdd gwasanaethau a'r cynlluniau ar gyfer moderneiddio ysgolion yn dda. Mae swyddogion ac ysgolion yn defnyddio ystod eang o ddata yn gyson ac yn effeithiol i fonitro cynnydd, gosod targedau heriol a chynllunio ar gyfer gwella. Mae'r ymgynghoriadau a'r adolygiadau hyn, ynghyd â dadansoddi cynnydd cynlluniau busnes, yn llywio hunanarfarniad blynyddol y gwasanaeth. Defnyddir gwybodaeth yn llwyddiannus i gynorthwyo gwella gwasanaethau ac ysgolion a herio tanberfformio. Darparodd yr awdurdod hunanarfarniad sy'n adlewyrchu canfyddiadau'r arolygiad yn gywir.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn rhan annatod o'r fframwaith atebolrwydd llwyddiannus. Mae'n gyson ar draws yr holl feysydd ac mae'n ysgogi gwelliant yn effeithiol. Mae gan bob aelod o staff dargedau perfformiad cysylltiedig sydd wedi'u cysylltu'n glir â blaenoriaethau strategol.

Mae swyddogion yn herio ysgolion sy'n tanberfformio yn dda ac mae'r awdurdod wedi defnyddio'i ystod lawn o bwerau statudol i ysgogi gwelliant lle bydd angen.

Mae'r awdurdod wedi mynd i'r afael yn dda ag argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn o wasanaethau addysg a chymorth ieuenctid.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Y prif ffocws yn y dangosydd ansawdd hwn yw'r effaith a gaiff gwaith partneriaeth strategol ar y deilliannau a'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr. Yng Ngheredigion, mae'n amlwg bod yr effaith ar y gwelliannau a gyflawnwyd yn rhagorol.

Caiff pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i fodloni anghenion unigolion a grwpiau o ddysgwyr ei ddeall yn dda o fewn yr awdurdod. Mae'n strategaeth sy'n cael ei gyrru ar y lefelau uwch ac fe gaiff ei chroesawu'n effeithiol gan aelodau etholedig, swyddogion a darparwyr dysgu ar draws yr awdurdod. Nid yw gwaith partneriaeth yn cael ei weld yn rhywbeth 'ychwanegol' i wasanaethau addysg craidd, ond yn hytrach fel rhan annatod o gydweithio i alluogi pob dysgwr i gyflawni hyd eithaf ei allu.

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol wedi sefydlu'r Grŵp Gweithredu Lleol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc fel un o'i bum is-grŵp gweithredol. Mae hyn yn sicrhau bod y blaenoriaethau i helpu plant a phobl ifanc i gyflawni yn cyfrannu'n uniongyrchol at Gynllun Integredig Sengl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Mae dull yr awdurdod o weithio mewn partneriaeth yn gynhwysol ac yn canolbwyntio ar atebion, ac fe gaiff ei gefnogi'n eithriadol o dda gan y banc data soffistigedig sy'n cael ei rannu'n effeithiol rhwng gwasanaethau ac asiantaethau trwy gytundeb lleol. O ganlyniad, mae dangosyddion perfformiad allweddol yn gyson dda. Ar lefel ehangach, mae Ceredigion yn rhannu arferion effeithiol gyda'r awdurdodau eraill o fewn y consortiwm gwella ysgolion rhanbarthol.

Mae Ceredigion wedi arwain cydweithio yn llwyddiannus iawn gyda'i phartner yn y ganolfan gwella ysgolion leol, sef Powys. Defnyddiodd wersi gwerthfawr, a ddysgwyd o ymdrechion cynharach i sefydlu cydweithio gydag awdurdod arall, i lywio'r cynllunio ar gyfer y gwaith gyda Phowys. Dangosodd y gwersi hyn yn glir fod dull unedig o newid, gyda strwythurau rheoli a llywodraethu wedi'u halinio ar draws dau awdurdod gwahanol, yn ddewis oedd yn cael ei ffafrio ar gyfer y ganolfan hon. Roedd gan yr awdurdod ffocws cryf ar rannu arbenigedd a gwybodaeth strategol, er mwyn galluogi swyddogion i ddatblygu eu gallu eu hunain ar bob lefel o'r gwasanaethau dysgu ym Mhowys. Mae'r dull cydweithredol hwn o rannu arfer dda gyda Phowys, wedi'i ategu gan wella deilliannau a darpariaeth yn llwyddiannus yng Ngheredigion, yn arwain y sector.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r cyngor yn cefnogi ei wasanaeth addysg yn dda trwy bennu'r gyllideb, yn unol â'i nodau a'i amcanion gwella datganedig. Mae'r gyllideb addysg net ar gyfer 2013-2014 ychydig uwchlaw'r dyraniad tybiannol o fewn Grant Cymorth Refeniw'r awdurdod.

Mae rheolaeth gyllidebol o fewn y gwasanaeth addysg yn gadarn ac mae rheoli adnoddau yn adlewyrchu cynllunio gofalus a'r hyblygrwydd i fanteisio ar gyfleoedd wrth iddynt godi. Mae'r gwasanaeth a reolir yn ganolog yn gwneud defnydd llawer gwell o adnoddau dynol ac adnoddau ariannol nag a wnaed adeg yr arolygiad diwethaf. Mae ailstrwythuro'r rheolaeth, symud i swyddfeydd pwrpasol, priodol a

datblygu system wybodaeth soffistigedig wedi cyfrannu'n dda iawn at greu tîm amlddisgyblaethol sy'n gweithio'n effeithiol i gyflawni amcanion strategol.

Mae'r cyngor a'i bartneriaid wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda i leihau nifer y disgyblion sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir. Yn ogystal â chryfhau ymagwedd hynod gynhwysol y cyngor at ddysgu, mae hyn wedi lleihau costau i'r holl bartneriaid hefyd. Mae'r awdurdod wedi gweithio'n dda gyda'i ysgolion i gytuno a rhoi nifer o welliannau ar waith o ran defnyddio adnoddau o fewn y gyllideb addysg. Mae newidiadau yn y ffordd y caiff cyllid ar gyfer disgyblion ag ADY ei ddirprwyo i ysgolion, er enghraifft, ac mewn trefniadau cymorth ymddygiad, wedi arwain at arbedion sylweddol. Ar yr un pryd, mae'r newidiadau wedi arwain at ddeilliannau gwell ac at ddarpariaeth mewn ysgolion sy'n fwy gwydn a chynaliadwy. Mae'r arbedion a gafwyd wedi golygu y gellir targedu adnoddau i flaenoriaethau fel llythrennedd a rhifedd. Mae ysgolion wedi cytuno bod cyllid a ddirprwyir iddynt ariannu blaenoriaethau allweddol yn cael ei atal i ddechrau hyd nes y caiff cynlluniau gweithredu priodol eu derbyn a'u cyflwyno.

Mae sefyllfa ariannol nifer o ysgolion uwchradd wedi bod yn destun pryder yn y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae cymorth ariannol da a newidiadau i'r fformiwla cyllid wedi datrys y problemau hyn i raddau helaeth. O ran cyfanswm, bu rhywfaint o gynnydd yn lefel y cronfeydd wrth gefn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn ystod 2012-2013 ac mae uwchlaw'r cyfartaledd yng Nghymru erbyn hyn. Mae rheolaeth ariannol bwyllog wedi galluogi'r gwasanaeth addysg i gyfrannu'n sylweddol at yr arbedion sydd eu hangen i fodloni'r bwlch cyllid corfforaethol yn 2014-2015 a thu hwnt.

Mae cynlluniau clir ar waith i ariannu cyfran yr awdurdod o'r £34.5 miliwn o raglen gyfalaf Ysgolion yr 21st Ganrif i adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes wrth wella ansawdd yr ysgolion yng Ngheredigion. Mae crynswth yr arbedion sy'n deillio o ad-drefnu ysgolion a wnaed hyd yn hyn wedi cael eu clustnodi'n briodol i gefnogi'r prosiectau o fewn cynlluniau'r awdurdod.

Mae cyfanswm cost y gwasanaeth addysg yn parhau i fod yn uchel o gymharu ag awdurdodau gwledig eraill tebyg. Fodd bynnag, mae deilliannau ar gyfer dysgwyr yn dda ac mae ansawdd y ddarpariaeth a'r gweithio mewn partneriaeth yn rhagorol mewn llawer o achosion. Mae'r gwasanaeth addysg yn gwneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael iddo ac mae'n darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Iwan Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Jane Taylor | Arolygydd Tîm |
| Sw Roberts | Arolygydd Tîm |
| Mererid Stone | Arolygydd Tîm |
| Mark Campion | Arolygydd Tîm |
| Steve Martin | Arolygydd Tîm |
| Huw Lloyd Jones | Arolygydd Tîm |
| Linda Mary Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Arwyn Thomas | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)